# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 24 Mai, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Ball, M. Cowpe, R. Godfrey, S. Lloyd-Selby, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, and E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

## 76 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 77 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr I. Buckley, C.A. Cave a A.M. Collins.

## 78 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 79 GALW I MEWN- CYNGHORYDD C.P. FRANKS - SYSTEM COFNODION GOFAL CYMDEITHASOL – CABINET: 25 EBRILL, 2024 –

Derbyniwyd yr alwad i mewn gan y Cynghorydd Franks yn dilyn ystyriaeth gan y Cabinet ar 25 Ebrill 2024 (mae Cofnod Rhif C319 yn cyfeirio at hyn).

Galwodd y Cynghorydd Franks yr eitem i mewn oherwydd ei fod o'r farn ei bod yn bwysig i Aelodau'r Pwyllgor Craffu ystyried a deall yn llawn y materion a oedd yn ymwneud â'r cynnig i gaffael System Cofnodion Gofal Cymdeithasol newydd yn lle CareDirector (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC)) a fyddai'n dod i ddiwedd ei oes erbyn mis Ionawr 2026.  Felly, roedd angen i'r Pwyllgor ystyried y materion, y risg, a'r gwerth am arian cyn i benderfyniad y Cabinet gael ei symud ymlaen.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i ymrwymo i gytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT), Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO) ynghylch caffael system gofal cymdeithasol newydd yn lle CareDirector (SWGCC) a fyddai'n dod i ddiwedd ei oes erbyn mis Ionawr 2026.

Ar hyn o bryd roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi'i gontractio i CareDirector, a elwir yn SWGCC yn fwy cyffredin ac amlinellodd yr adroddiad y sefyllfa bresennol o ran y system, pan ddaw'r contract i ben, a'r amserlenni ar gyfer penderfyniadau y byddai eu hangen yn ystod y misoedd nesaf gyda'r bwriad o gaffael system newydd.

Cefnogwyd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd yn y cyfarfod gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â'r Pennaeth Digidol, i roi ymateb i'r alwad i mewn.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi'i drefnu yn unol â gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor yn unol ag adran 7.24 Cyfansoddiad y Cyngor ac y byddai ei drefn yn adlewyrchu'r meini prawf a nodir yn 12.4 Protocol Cyfrifoldebau a Rolau'r Cabinet a Chraffu. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle hefyd i atgoffa'r Pwyllgor o'i gylch gwaith i gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed, ac felly i ystyried y mater dan yr amcan hwnnw.

Yna gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Franks i siarad gerbron y Pwyllgor i gefnogi'r alwad i mewn a gyflwynwyd. Cododd y Cynghorydd Franks y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Cynghorydd Franks yn ddiolchgar bod y Pwyllgor wedi derbyn yr alwad i mewn gan fod y mater yn un pwysig i'w adolygu o ystyried y cynnydd sylweddol mewn costau a oedd yn gysylltiedig.
- Roedd yn destun pryder nad oedd yr adroddiad yn glir o ran pwy a oedd yn gyfrifol am y prosiect ac nad oedd adroddiadau sylweddol ar y mater wedi'u cyflwyno i Graffu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Gyda'r parch mwyaf at staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, gofynnwyd y cwestiwn ynghylch eu cymwysterau TGCh a'u harbenigedd er mwyn rheoli'r gwasanaeth.
- Roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor yn llawn risg ariannol ac eto nid oedd yn nodi unrhyw gostau cywir ar gyfer y prosiect, ac ni nododd yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth pe bai'r prosiect yn methu.
- I grynhoi, gofynnodd y Cynghorydd Franks pwy a oedd yn gyrru'r prosiect yn ogystal â phwy a oedd yn atebol yn wleidyddol o ran Aelod Cabinet ar gyfer y prosiect ac awgrymodd y dylid gofyn i'r Cabinet roi ymateb cynhwysfawr i'w gwestiynau.

Yn dilyn sylwadau'r Cynghorydd Franks, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet a oedd yn gyfrifol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd i roi ei ymateb. Dywedodd yr Aelod Cabinet y canlynol:

- Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i’r Pwyllgor yn cydnabod bod angen i'r Cyngor ddechrau'r broses o uwchraddio system gofnodion y Cyngor oherwydd y ffaith na fyddai’r system a oedd gan y Cyngor ar waith ar hyn o bryd, fel rhan o raglen SWGCC, a oedd yn rhaglen gydweithredol a oedd yn cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei chefnogi ar ôl mis Ionawr 2026. Cydnabuwyd nad oedd gan yr adroddiad yr holl fanylion ar hyn o bryd.
- Roedd gan y Cyngor Bennaeth Digidol a oedd â'r arbenigedd i arwain y prosiect ac felly nid oedd y prosiect yn dibynnu ar staff y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, fodd bynnag, roedd staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd rhan lawn yn y prosiect er mwyn llywio gofynion gwasanaeth a’r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Nododd yr adroddiad anawsterau caffael blaenorol, yn ogystal â'r cyd-destun, a bod sefydliad penodol i Gymru yn ymchwilio i'r mater hwnnw. Fodd bynnag, gyda'r dyddiad cau a oedd yn agosáu'n gyflym ar gyfer system newydd, a dim ffordd glir ymlaen ar hyn o bryd, bu'n rhaid i'r Cyngor edrych yn rhagweithiol ar ffyrdd eraill o symud ymlaen gyda'r prosiect gan ddefnyddio fframweithiau cydnabyddedig y diwydiant.
- O ran unrhyw risg ariannol, roedd cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru, ond nid oedd y cyllid wedi’i gael eto ond roedd disgwyl i hynny ddigwydd wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.
- Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol cyfagos eraill: Merthyr, Rhondda Cynon Taf, a Phen-y-bont ar Ogwr, gan yr oedd yr Awdurdodau hyn eisoes yn gwneud cynnydd ac felly roedd y Cyngor yn dymuno manteisio ar brofiad a llwyddiant yr Awdurdodau Lleol eraill.
- Nododd yr adroddiad hefyd y gwahanol gymalau a roddwyd ar y prosiect i ddiogelu'r Cyngor wrth symud ymlaen a nododd sut roedd y prosiect yn y camau datblygu a chwmpasu, ac felly ni ellid rhoi atebion penodol ar hyn o bryd.
- Cydnabuwyd hefyd fod datblygiadau mewn technoleg yn digwydd yn gyflym iawn a'i fod wedi ymrwymo i gydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill yn ogystal â sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn symud y prosiect yn ei flaen.
- Roedd swyddogion allweddol a oedd yn rhan o'r prosiect yn cyfarfod hyd at ddwywaith yr wythnos er mwyn cynnal cynnydd, a chasglu mwy o fanylion i ddechrau'r broses, a byddai adroddiadau pellach yn cael eu rhoi i'r Cabinet maes o law.

Yn dilyn sylwadau'r Aelod Cabinet, cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gofrestriadau i siarad wedi'u derbyn gan aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â'r eitem ac felly gwahoddwyd yr Aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor i siarad Heb unrhyw arwyddion gan yr Aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor, dechreuodd y Cadeirydd drafodaeth ymhlith y Pwyllgor.

Dechreuodd y Cynghorydd Godfrey y drafodaeth ar yr eitem drwy fynegi ei bryderon ynghylch y diffyg ffigurau cyllidebol yn yr adroddiad yn ogystal â chostau posibl mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill fel Rhondda Cynon Taf a fyddai’n arwain y prosiect yn ôl yr adroddiad. Mewn ymateb, ailadroddodd yr Aelod Cabinet fod £2.67m o gyllid wedi'i ddyrannu gan

Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digido ar gyfer 2024/2025 ac y byddai proses dendro angenrheidiol yn cael ei chynnal a fyddai'n rhoi ffigurau cost a dadansoddiad perthnasol i'r Awdurdodau Lleol ar draws awdurdodau'r bartneriaeth.

Yna dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby fod angen system addas at y diben ar Gyngor Bro Morgannwg mewn cyfnod cymharol fyr ac felly roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor yn nodi'r darpariaethau perthnasol yng nghamau cynnar y prosiect. Nododd y Cynghorydd hefyd y bu rhywfaint o brofi ar y system newydd gan ddefnyddwyr ac felly gofynnodd a oedd unrhyw adborth wedi'i dderbyn o ganlyniad. Yn olaf, gofynnodd y Cynghorydd Lloyd-Selby am gadarnhad y byddai gweithgor y prosiect, a fyddai'n arwain y broses dendro, yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ar yr adeg briodol gyda goblygiadau cost terfynol. Mewn ymateb, ailadroddodd yr Aelod Cabinet fod y prosiect yng nghamau cynnar y broses gaffael a chadarnhaodd y byddai'r gweithgor perthnasol yn adrodd yn ôl i'r Cabinet yn y dyfodol mewn perthynas â chostau perthnasol.

Mewn ymateb i sylw gan Gadeirydd y Pwyllgor mewn perthynas ag unrhyw fesurau diogelu posibl a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i atal unrhyw godiadau cost trychinebus, dywedodd y Pennaeth Digidol fod y broses gaffael yn digwydd ar raddfa genedlaethol yn unol â'r broses a wnaed ar gyfer y system SWGCC flaenorol. Felly, roedd y dull rhanbarthol a chydweithredol wedi golygu nad oedd costau ar gael eto, ac nid tan i Fro Morgannwg gael achos busnes terfynol gan Lywodraeth Cymru a chadarnhad gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) y byddai mewn sefyllfa i gadarnhau'r costau. Mewn ymateb i'r cwestiwn o ran profi gan ddefnyddwyr a ofynnwyd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby, nid oedd Bro Morgannwg ar gam profi gan ddefnyddwyr cadarn, ond roedd wedi eistedd gyda thri darparwr arall i wirio y byddai'r system newydd a awgrymir yn cyd-fynd â gofynion gwasanaeth Bro Morgannwg.

Mewn ymateb i gais y Cynghorydd Cowpe am esboniad pellach o gymwysterau staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, ailadroddodd yr Aelod Cabinet fod gan Gyngor Bro Morgannwg Bennaeth Digidol a Rheolwr Gweithredol ar gyfer TGCh ar waith i ddefnyddio eu harbenigedd ar y prosiect a byddai Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod â'u harbenigedd eu hunain i'r prosiect o ran gofynion gwasanaeth. Byddai defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hymgynghori yn nes ymlaen o fewn y broses; fodd bynnag, roedd hyn yn dal i fod yn bell i ffwrdd. Roedd yr Aelod Cabinet wedi gofyn i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol symud ymlaen gyda'r prosiect mewn partneriaeth â chydweithwyr TGCh.

Fel pwynt atodol, canmolodd y Cynghorydd Cowpe Gyngor Bro Morgannwg am weithio gydag Awdurdodau Lleol eraill i fanteisio ar eu gwybodaeth a'u harbenigedd blaenorol hyd yma, ond nododd nad oedd systemau TGCh eraill ar draws y Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol yn gweithredu nac yn siarad â'i gilydd yn fewnol neu ar draws awdurdodau cyfagos, a oedd yn bryder enfawr. Felly, gofynnodd y Cynghorydd Cowpe a fyddai'r system newydd yn cysylltu â systemau gwybodaeth gofal cymunedol Cymru a/neu wasanaethau a systemau Awdurdodau Lleol eraill. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor mewn perthynas â system cofnodion gofal cymdeithasol fewnol ar gyfer y Cyngor ac felly ni

ragwelwyd y byddai'r system newydd yn integreiddio â systemau allanol eraill. Fodd bynnag, byddai unrhyw gofnod digidol a rennir ar draws ardaloedd Caerdydd a Bro Morgannwg a ddatblygir yn y dyfodol yn galluogi'r Cyngor i edrych ar draws gwahanol systemau TGCh, fel enghraifft y Cynghorydd Cowpe, ond mater ar wahân oedd hynny. Byddai'r Cyngor am sicrhau, gydag unrhyw system a brynwyd, y byddai'r system yn gallu ychwanegu nodweddion rhannu yn y dyfodol.

Yna cododd y Cadeirydd argymhelliad y dylid rhoi cyfle i'r Pwyllgor Craffu adolygu'r cytundeb arfaethedig cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo. Mewn ymateb, atgoffodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y Pwyllgor fod amseroldeb y prosiect wedi bod yn bryder mawr ac y byddai angen mynd ag unrhyw adroddiadau yn y dyfodol i gyfarfodydd craffu yn dilyn toriad mis Awst. Felly, pe na bai'r Cyfarwyddwr yn gallu symud ymlaen gyda chymeradwyaeth y Cabinet dros gyfnod toriad mis Awst, gallai arwain at beidio â gallu symud ymlaen â gweddill y partneriaid rhanbarthol ar y prosiect yn ogystal â methu â chaffael pecyn systemau erbyn mis Ionawr 2026. O ganlyniad, tynnodd y Cadeirydd ei argymhelliad yn ôl.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ei bod yn hanfodol bod Bro Morgannwg yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill mewn modd amserol ac felly awgrymodd fod y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion fel y'u cyflwynwyd yn adroddiad y Cabinet.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r holl gyfranogwyr am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo penderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 25 Ebrill, 2024 (C319), mewn perthynas â'r adroddiad System Cofnodion Gofal Cymdeithasol.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried y drafodaeth a gynhaliwyd yn y cyfarfod ar gynnwys adroddiad Cabinet 25 Ebrill 2024 fel y'i cyflwynwyd.